**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our: ref WAQ 79201

Adam Price AM
Aelod Cynulliad Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Adam.price@cynulliad.cymru

7 Ionawr 2020

Annwyl Adam

Diolch ichi am eich cwestiwn ysgrifenedig: *Ymhellach i WAQ79139, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau mai Llywodraeth Cymru yw rheoleiddiwr cymdeithasau tai Cymru?*

Gallaf gadarnhau bod gan Weinidogion Cymru swyddogaethau cyffredinol, o dan adran 75 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 (fel y'i diwygiwyd), o ran hwyluso cyflawniad swyddogaethau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) yn briodol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru arfer y swyddogaethau cyffredinol hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 1985 a rhan 1 o Ddeddf Tai 1996, ac yn unol â'r darpariaethau hynny.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio LCC yng Nghymru mewn perthynas â darparu tai a materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. O dan Ddeddf Tai 1996, mae gan Weinidogion Cymru safonau perfformiad sefydledig y mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio â nhw wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Yn unol ag 'egwyddor Carltona', swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig dros ac ar ran Gweinidogion Cymru, ac mae gweithredoedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu trin fel camau gweithredu Gweinidogion Cymru.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.